Y GRONFA GWADDOL IEUENCTID

Gwaith ieuenctid ac atal trais

Crynodeb o'r argymhellion

Ffocws priodol

1

Targedu cymorth lle mae'r risg o drais uchaf

Pam? Dylai cefnogaeth ddilyn angen.

CAMAU A ARGYMHELLIR:

A. Nodi plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a chyd-destunau risg uchel.
B. Gweithio gyda phartneriaid lleol i nodi bylchau.
C. Comisiynu mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc.

Dulliau sy'n gweithio

2

Cau'r bylchau sydd â'r brys mwyaf i'w cau o ran mynediad i glybiau ieuenctid

Pam? Gall diffyg clybiau ieuenctid wneud plant a phobl ifanc yn llai diogel.

CAMAU A ARGYMHELLIR:

A. Mapio clybiau ieuenctid presennol a nodi diffyg darpariaeth.
B. Agor clybiau ieuenctid newydd i wella mynediad i'r rhai mwyaf agored i niwed.
C. Cynyddu cyllid ar gyfer clybiau ieuenctid presennol.
D. Rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth ieuenctid lleol llawn sydd ar gael.

3

Codi safon a chyrhaeddiad mentora

Pam? Mae plant a phobl ifanc agored i niwed angen oedolion hyfforddedig sy'n aros yn ddigon hir i ennill eu hymddiriedaeth.

CAMAU A ARGYMHELLIR:

A. Mapio'r ddarpariaeth fentora a nodi bylchau.
B. Cynnig o leiaf chwe mis o fentora wythnosol gan oedolion diogel a hyfforddedig i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

4

Gwneud y mwyaf o bŵer amddiffynnol gweithgareddau cadarnhaol

Pam? Mae'r gweithgareddau gorau nid yn unig yn cadw plant a phobl ifanc agored i niwed yn brysur – maen nhw'n meithrin sgiliau a pherthnasoedd.

CAMAU A ARGYMHELLIR:

A. Ariannu amrywiaeth o weithgareddau cadarnhaol strwythuredig, gan gynnwys chwaraeon.
B. Cynnig o leiaf chwe mis o sesiynau gweithgareddau cadarnhaol wythnosol gan oedolion diogel a hyfforddedig i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.
C. Ariannu darpariaeth sy'n meithrin sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd dibynadwy.

5

Ymgorffori cymorth parhaus mewn adrannau damweiniau ac achosion brys sydd â galw uchel

Pam? Mae angen cymorth dilynol parhaus ar blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, nid eu cyfeirio'n sydyn.

CAMAU A ARGYMHELLIR:

A. Targedu cymorth i'r plant a'r bobl ifanc sydd ei angen fwyaf.
B. Sicrhau bod gweithwyr achos ar gael yn y lleoedd priodol ar yr adeg briodol.
C. Cyfuno cymorth uniongyrchol parhaus â mynediad at ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
D. Arfogi gweithwyr achos ar gyfer gofynion y rôl.



Sylfeini cadarn

6

Sicrhau cyllid craidd aml-flwyddyn fel mater o drefn

Pam? Gall cyllid tymor byr, cyfyngedig wanhau ansawdd y ddarpariaeth i bobl ifanc.

CAMAU A ARGYMHELLIR:

A. Cynnig cyllid sy'n para 3–5 mlynedd.
B. Ariannu costau gweithredu craidd bob dydd.
C. Darparwyr cyllid i gasglu a defnyddio data i wella ansawdd a chynhwysiant.

7

Arfogi gweithwyr ieuenctid i ddiogelu plant a phobl ifanc

Pam? Mae gweithwyr ieuenctid eisoes yn diogelu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed rhag trais – yn aml heb y gefnogaeth angenrheidiol.

CAMAU A ARGYMHELLIR:

A. Ariannu goruchwyliaeth reolaidd a hyfforddiant arbenigol ar gyfer gweithwyr ieuenctid.
B. Cynnwys gweithwyr ieuenctid mewn systemau diogelu lleol a/neu ddiogelwch cymunedol.

8

Blaenoriaethu strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac osgoi dulliau niweidiol

Pam? Mae'n well gwario adnoddau prin ar strategaethau atal trais sy'n cael eu cefnogi gan dystiolaeth.

CAMAU A ARGYMHELLIR:

A. Defnyddio tystiolaeth gadarn i gyfrannu at benderfyniadau.
B. Bod yn ymwybodol bod gan lawer o strategaethau atal trais dystiolaeth gyfyngedig.
C. Osgoi dulliau a brofwyd sy'n achosi niwed.